Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Pont Y Gof

**Botwnnog**
**Pwllheli**
**Gwynedd**
**LL53 8RA**

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2024**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

# Ynglŷn ag Ysgol Pont Y Gof

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Pont Y Gof |
| Awdurdod lleol | Cyngor Gwynedd |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | Ysgol Wirfoddol a Reolir yr Eglwys yng Nghymru |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 97 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 85 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 12 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.7%) | 8.5% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 13.2%) | 14.5% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 77.5% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/04/2024 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 08/12/2015 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 18/03/2024 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion addysg arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Pont Y Gof yn gymuned glòs sy’n dathlu Cymreictod, cwrteisi a pharch yn arbennig o dda. Mae’r holl staff yn ymrwymo i sicrhau ansawdd uchel o ofal a lles i ddisgyblion mewn awyrgylch dysgu cartrefol a gweithgar. Mae hyn yn dylanwadu’n gryf ar agweddau’r disgyblion at ei gilydd, ac at bobl eraill o fewn a thu hwnt i’r ysgol. Mae eu hymddygiad yn ardderchog, ac maent yn arddangos agweddau cadarnhaol at eu dysgu.

Mae’r berthynas waith gefnogol rhwng y staff a’r disgyblion yn adeiladu hyder y disgyblion yn llwyddiannus. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos cymhelliant cryf a diddordeb chwilfrydig yn eu dysgu ac yn gwneud cynnydd cadarn o’u mannau cychwyn. Mae hyn oherwydd bod athrawon yn cynllunio gweithgareddau diddorol ar eu cyfer sy’n gwneud dysgu yn gyffrous ac yn hwyl. Mae’r disgyblion yn elwa o brofiadau dysgu cyfoethog sy’n eu galluogi i ddatblygu’r medrau sydd eu hangen arnynt i fanteisio ar gwricwlwm cyfan. At ei gilydd, mae disgyblion yn trefnu a chyflwyno eu gwaith yn briodol.

Mae naws Gymreig gryf yn bodoli yn yr ysgol. Mae balchder disgyblion at y Gymraeg yn nodwedd gref ac maent yn defnyddio’r iaith yn gwbl naturiol y tu fewn a thu allan i’r dosbarth. Darperir ystod o brofiadau gwerthfawr gan athrawon sy’n hyrwyddo ymwybyddiaeth y disgyblion o’u milltir sgwâr, ei hanes a’i thraddodiadau. O ganlyniad, mae disgyblion yn dangos balchder yn eu treftadaeth ynghyd â gwerthfawrogiad amlwg o ddiwylliant a hanes yr ardal leol. Rhinwedd nodedig o waith yr ysgol yw’r pwyslais amlwg sy’n cael ei roi ar ddarparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddysgu am economi’r gymdeithas wledig mae’r ysgol yn rhan ohoni ac i ddatblygu’r medrau sydd eu hangen arnynt i lwyddo’n lleol.

Mae gan ddisgyblion lais cryf ym mywyd yr ysgol ac maent yn mwynhau’r cyfleoedd a gânt i ddylanwadu ar beth maent yn dymuno ei ddysgu o fewn thema’r tymor. Maent yn ffynnu trwy gyfrannu at amrywiaeth o gynghorau sy’n cael effaith gadarnhaol ar fywyd yr ysgol. Mae hyn yn creu ymdeimlad cryf o berthyn.

Mae’r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth effeithiol ac ystyriol sy’n gwerthfawrogi ymdrechion pawb sy’n cyfrannu at addysg y disgyblion. Caiff gefnogaeth gref gan staff ymroddedig sy’n cydweithio â’i gilydd yn dda fel tîm. Maent yn dangos ymrwymiad cryf i hyrwyddo gwelliannau parhaus a chynaliadwy. Mae gan y llywodraethwyr ddealltwriaeth dda o waith yr ysgol ac maent yn cefnogi’r ysgol yn effeithiol.

## Argymhellion

A1 Darparu mwy o gyfleoedd i’r ddisgyblion hynaf wneud penderfyniadau am sut maent yn trefnu a chyflwyno eu gwaith, ac ymateb i weithgareddau dysgu yn gynyddol annibynnol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos, i'w lledaenu ar wefan Estyn, ar ei gwaith mewn perthynas â sut y mae Ysgol Pont y Gof, mewni ymateb i ddyheadau'r gymuned, yn cynllunio profiadau dysgu i adlewyrchu natur, cyd-destun ac economi'r ardal leol er mwyn hybu dysgwyr i ddod yn aelodau llawn o'u cymuned a sicrhau eu bod yn datblygu'r medrau i'w defnyddio yn y byd gwaith a llwyddo'n lleol.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cychwyn yn yr ysgol gyda medrau tua'r hyn a ddisgwylir ar gyfer eu cam datblygiad, heblaw am eu medrau Cymraeg, sy'n iaith newydd i ychydig ohonynt. Mae'r disgyblion sy'n hwyrddyfodiaid i'r Gymraeg yn magu hyder yn gyflym ac yn ymateb yn gadarnhaol i'r anogaeth gan staff i ddefnyddio'r iaith yn ystod eu gweithgareddau. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn gwneud cynnydd cadarn ac yn cyflawni'n dda.

Ar draws yr ysgol, mae bron bob disgybl yn datblygu medrau gwrando effeithiol ac mae'r rhan fwyaf yn siarad yn hyderus a chwrtais. Erbyn Blwyddyn 2 maent yn defnyddio cystrawennau Cymraeg yn gywir, er enghraifft wrth drafod problem sbwriel yn yr ardal 'Coed Cofan'. Mae rhan fwyaf o'r disgyblion hynaf yn siarad Cymraeg yn gwbl naturiol ac yn defnyddio geirfa bwrpasol ac iaith gyfoethog wrth drafod eu gwaith, er enghraifft wrth gyfeiriannu ar dir yr ysgol. Maent yn mynegi eu hunain yn aeddfed yn y Gymraeg a'r Saesneg mewn trafodaethau dosbarth ac yn ystyriol iawn o safbwyntiau eu cyfoedion.

Mae'r disgyblion ieuengaf yn mwynhau gwrando ar storïau a'u hailddweud wrth ffrindiau ac oedolion. Maent yn dechrau adnabod ac enwi amrywiaeth o seiniau ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i ddechrau darllen testunau syml sy'n briodol ar gyfer eu cam datblygiad. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf yn darllen â rhuglder a dealltwriaeth gynyddol gyda datblygiad da yn eu medrau ffoneg i ddarllen geiriau anghyfarwydd. Mae rhan fwyaf o'r disgyblion hynaf yn darllen yn ddeallus mewn cyd-destunau amrywiol yn y ddwy iaith. Maent yn amrywio goslef eu llais ac yn defnyddio atalnodi'n gywir i ddangos eu dealltwriaeth. Mae'r rhan fwyaf yn gwneud defnydd effeithiol o'u medrau darllen i gywain gwybodaeth o lyfrau a thestunau amrywiol oddi ar wefannau perthnasol.

Mae medrau ysgrifennu y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn ysgrifennu mewn ystod briodol o gyd-destunau ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd. Mae rhan fwyaf o'r ddisgyblion hynaf yn ysgrifennu'n gelfydd, er enghraifft wrth ysgrifennu ymson o safbwynt Bendigeidfran. Mae ganddynt ymwybyddiaeth dda o bwysigrwydd atalnodi a chywirdeb wrth sillafu. Mae'r

rhan fwyaf yn drafftio eu gwaith yn effeithiol ac yn gwneud defnydd creadigol o gymariaethau ac idiomau i gyfoethogi eu gwaith, er enghraifft wrth ysgrifennu stori ddychmygus am Yr Eira. Maent yn ysgrifennu'n bwrpasol ar draws y meysydd dysgu ac yn dangos ymwybyddiaeth gadarn o nodweddion ystod o ffurfiau gwahanol yn Gymraeg. Fodd bynnag, lleiafrif o ddisgyblion sy'n cymhwyso eu medrau ysgrifennu Saesneg yn ddigon cyson ar draws y cwricwlwm.

Gwna'r rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol gynnydd cadarn yn eu medrau rhifedd. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf yn datblygu ystod ddefnyddiol o fedrau mathemategol ac yn mwynhau gweithgareddau mathemateg, gan ymgymryd â gemau cyfrif a thrin arian yn yr ardal chwarae rôl yn llwyddiannus. Mae rhan fwyaf o'r disgyblion hynaf yn gweithio'n hyderus gyda phedair rheol rhif, siâp a mesur ac yn datblygu medrau cadarn wrth drin data. Maent yn cymhwyso eu medrau'n hyderus ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth fesur trwch coed Pont y Gof.

O oedran cynnar, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio amrediad cynyddol o offer digidol a meddalwedd yn hyderus mewn gwahanol gyd-destunau i gefnogi eu dysgu, er enghraifft wrth gymharu cryfder gwahanol fagnedau. Mae llawer o'r disgyblion hynaf yn cymhwyso eu medrau digidol yn effeithiol er mwyn ymateb i wahanol dasgau i gefnogi eu medrau ymchwil, er enghraifft wrth greu a chyflwyno animeiddiad i arddangos pwysigrwydd ailgylchu ac ailddefnyddio deunyddiau. Maent yn trin data'n dda, er enghraifft wrth gymharu glawiad yng Nghymru ac Awstralia. Maent yn dechrau datblygu eu medrau codio i reoli teclyn electronig.

Mae bron bob disgybl yn ddatblygu eu medrau creadigol, artistig a chorfforol yn gelfydd. Mae'r disgyblion ieuengaf yn datblygu ystod dda o dechnegau, er enghraifft wrth greu draenog allan o ddefnyddiau naturiol. Mae'r disgyblion hynaf yn amrywio tôn a lliw yn effeithiol, er enghraifft i greu darluniau i adlewyrchu lliwiau 'Llewyrch yr Arth'. Mae'r rhan fwyaf yn datblygu eu hyder ac yn cydweithio'n frwdfrydig wrth berfformio mewn cyngherddau ysgol a'r gymuned lleol, cystadlaethau'r Urdd a thrwy ddysgu offerynnau cerdd amrywiol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau corfforol da, er enghraifft wrth feicio o gwmpas llwybr yr ysgol a thrwy weithio gydag offer trin coed yn y 'Cwt Seiri'r Gof'. Maent yn ymroi'n frwdfrydig mewn gwersi ymarfer corff, dawnsio a nofio ac yn cyd-chwarae hoci, pêl-droed ac athletau mewn cystadlaethau lleol yn llwyddiannus.

### Lles ac agweddau at ddysgu

Mae bron bob disgybl yn teimlo'n hapus a diogel o fewn amgylchedd gynhaliol a chynhwysol yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi i drafod os oes pryder yn codi. Maent yn teimlo eu bod yn cael eu parchu a'u trin â thegwch gan staff sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at yr ethos teuluol a chartrefol sy'n bodoli yno. Mae'r rhan fwyaf yn dangos balchder amlwg yn eu hysgol ac yn gwerthfawrogi'r arlwy gyfoethog o brofiadau a ddarperir ar eu cyfer. Caiff hyn ei adlewyrchu ym mrwdfrydedd disgyblion tuag at eu dysgu. Mae eu hymddygiad yn eu gweithgareddau dysgu ac o amgylch yr ysgol yn ardderchog. Maent yn gwrtais a siriol â'i gilydd ac yn cyfarch staff ac ymwelwyr yn gyfeillgar.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol at eu dysgu. Mae'r disgyblion ieuengaf yn deall trefniadau'r dosbarth yn fuan ac yn dysgu chwarae a

dysgu'n hapus ochr yn ochr â'u ffrindiau. Maent yn datblygu medrau dysgu annibynnol yn gynyddol hyderus ac yn cymhwyso ystod dda o fedrau a dysgu blaenorol yn llwyddiannus. Wrth iddynt ddatblygu drwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn canolbwyntio'n ddiwyd ar eu gweithgareddau am gyfnodau estynedig. Maent yn cydweithio'n dda ac yn gwrando ar farn ei gilydd mewn gwaith parau neu grwpiau i ddatrys problemau, a hynny'n aml heb gefnogaeth staff. Er enghraifft, mae'r disgyblion hynaf yn cydweithio'n dda i leisio'u barn yn aeddfed ar gynllun i greu pad hofrennydd gerllaw'r ysgol.

Mae llawer o'r disgyblion hynaf yn datblygu gwydnwch cynyddol wrth wynebu profiadau dysgu a sefyllfaoedd newydd. Maent yn arddangos cymhelliant a chwilfrydedd yn eu dysgu. Wrth wynebu unrhyw anhawster â'u gweithgareddau, maent yn dilyn y drefn o fyfyrio, trafod a chydweithio â'u cyfoedion cyn gofyn am gymorth gan athrawon neu gymhorthydd dosbarth. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu i fod yn ddysgwyr uchelgeisiol a hyderus sy'n barod i ddysgu. Er hyn, ar adegau, nid yw lleiafrif y disgyblion yn datblygu eu medrau dysgu yn ddigon effeithiol er mwyn trefnu a chyflwyno eu gwaith yn gynyddol annibynnol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyfrannu'n fuddiol i'w dysgu trwy gynnig syniadau ar beth yr hoffent ei ddysgu i'w gynnwys yn y themâu tymhorol. Mae hyn yn eu helpu i gymryd perchnogaeth dros eu dysgu eu hunain. Mae disgyblion sy'n ymgymryd â rolau arwain yn gwneud hynny'n frwdfrydig gan gymryd eu cyfrifoldebau o ddifri. Er enghraifft, mae'r cyngor ysgol yn falch o'u cyfraniad wrth greu'r cwt 'Eto ac Eto' i ailgylchu gwisg ysgol. Mae'r criw Siarter Iaith yn chwarae rôl allweddol wrth hybu disgyblion i siarad Cymraeg, gwrando ar gerddoriaeth Cymraeg a chyflwyno gemau buarth i atgyfnerthu'r defnydd o'r iaith drwy chwarae.

Mae gan bron bob disgybl ddealltwriaeth dda o bwysigrwydd gwneud dewisiadau doeth sy'n effeithio ar eu hiechyd. Maent yn deall pwysigrwydd deiet cytbwys ac am yr angen i gadw'n heini. Maent yn mwynhau defnyddio offer ar yr buarth yn ystod cyfnod egwyl. Er enghraifft, mae'r disgyblion ieuengaf yn mwynhau defnyddio cyfarpar fel beiciau a theganau mawr. Mae'r disgyblion hynaf yn chwarae rôl bwysig wrth gynnal a chwarae gemau gyda'r disgyblion ieuengaf. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos brwdfrydedd amlwg mewn gweithgareddau addysg gorfforol ac mae llawer yn croesawu a mwynhau'r clybiau chwaraeon, a dysgu medrau newydd gydag ymwelwyr, er enghraifft wrth ddysgu amrediad o ddawnsfeydd traddodiadol. Mae hyn yn cyfrannu'n effeithiol at hybu eu ffitrwydd a'u gallu i gydweithio.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu i fod yn ddinasyddion moesegol a gwybodus. Mae gan lawer ymwybyddiaeth dda o bwysigrwydd cydraddoldeb a pharchu pobl eraill. Mae ganddynt ddealltwriaeth o'u hawliau sy'n cynnwys ymwybyddiaeth o'r hawl i fod yn hapus. Trwy ddysgu am hanes merched fel Betsi Cadwaladr a Rosa Parks, er enghraifft, maent yn datblygu empathi a dealltwriaeth aeddfed o brofiadau pobl fu'n ddigon dewr i wneud safiad dros eu hegwyddorion.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o sut i gadw'u hunain ac eraill yn ddiogel, gan gynnwys cadw'n ddiogel ar-lein. Maent yn cymhwyso hyn yn effeithiol wrth gyflawni eu gweithgareddau dysgu. Maent yn ymwybodol o bwysigrwydd mynychu'r ysgol yn gyson a phrydlon sy'n cyfrannu'n effeithiol at wella'r cyfraddau presenoldeb diweddar.

### Addysgu a phrofiadau dysgu

Trwy wrando a gweithredu ar gyfraniad yr holl randdeiliaid, mae arweinwyr a staff wedi datblygu gweledigaeth a dylunio cwricwlwm eang a chytbwys sydd â'r ardal leol yn greiddiol i'r profiadau dysgu. Mae athrawon yn dylunio ystod o brofiadau gwerthfawr sy'n adlewyrchu natur, cyd-destun ac economi'r gymdeithas wledig mae'n rhan ohoni. Maent wedi ystyried sut i ddatblygu gwybodaeth, medrau a phrofiadau disgyblion i ddod yn aelodau gwerthfawr o'u hardal leol yn grefftus. O ganlyniad, mae disgyblion yn dangos balchder yn eu treftadaeth ynghyd â gwerthfawrogiad cynhenid o ddiwylliant a hanes eu cynefin. Mae athrawon yn rhoi pwyslais amlwg ar ddarparu prosiectau mentergarwch ymhob dosbarth, sy'n plethu medrau ymarferol a chyfannol i brofiadau dysgu'r disgyblion. Mae hyn yn helpu disgyblion i ddatblygu'r medrau sydd eu hangen arnynt i lwyddo'n lleol.

Mae'r holl staff yn creu perthnasoedd cadarn â'r disgyblion sy'n meithrin amgylchedd gefnogol ar gyfer dysgu. Maent yn adnabod y disgyblion a'u teuluoedd yn dda, ac yn darparu cefnogaeth effeithiol wrth iddynt ddysgu a rhyngweithio â'u cyfoedion. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar les a chynnydd ym medrau'r disgyblion. Maent yn cymell disgyblion yn llwyddiannus, ac o ganlyniad, mae'r rhan fwyaf yn ymgolli yn eu dysgu a'i fwynhau. Mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel o bob disgybl ac maent yn annog parch a chwrteisi yn gyson.

Mae athrawon yn cynllunio ystod eang o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu a chymhwyso eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau gwrando a siarad Cymraeg y disgyblion yn hynod effeithiol. Mae staff yn defnyddio'r Gymraeg yn gywir a choeth ac yn manteisio ar bob cyfle i gyfoethogi iaith disgyblion. Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at gryfhau medrau ieithyddol disgyblion a'u cymhwyso i'w defnyddio'n llwyddiannus mewn cyd-destunau gwahanol. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn cynllunio cyfleoedd digon cyson i'r disgyblion hynaf gymhwyso eu medrau ysgrifennu Saesneg ar draws y cwricwlwm.

Ar draws yr ysgol, mae athrawon yn defnyddio amrywiaeth eang o ddulliau addysgu i ennyn a chynnal diddordeb y disgyblion. Maent yn cynllunio profiadau dysgu diddorol ac ysgogol i'w disgyblion sy'n bodloni anghenion y rhan fwyaf ohonynt yn llwyddiannus. Mae cydweithio pwrpasol rhwng athrawon a chymorthyddion dosbarth yn darparu cefnogaeth werthfawr i alluogi disgyblion i gwblhau eu tasgau ac elwa ohonynt.

Mae egwyddorion y cyfnod sylfaen wedi gwreiddio'n llwyddiannus. Rhoddir pwyslais buddiol ar feithrin annibyniaeth y disgyblion ieuengaf trwy ddarparu profiadau ymarferol ac ysgogol. Mae cyflwyniadau athrawon y disgyblion hynaf yn fyrlymus ac ysgogol sy'n ennyn diddordeb y rhan fwyaf o ddisgyblion yn fwriadus. Maent yn holi'r disgyblion yn dreiddgar sy'n eu cefnogi i adalw dysgu blaenorol yn dda. Er hyn, ar adegau, mae tueddiad i athrawon y disgyblion hynaf arwain y gweithgareddau dysgu'n rhy gaeth. Mae hyn yn ei dro yn cyfyngu ar gyfleoedd i ddisgyblion benderfynu sut maent yn trefnu a chyflwyno eu gwaith, ac ymateb i weithgareddau yn gynyddol annibynnol.

Ar draws yr ysgol, mae staff yn gwneud defnydd hynod effeithiol o'r ardaloedd allanol eang i hyrwyddo'r dysgu. Mae athrawon yn cynllunio profiadau dysgu ysgogol, er enghraifft yn y 'Cwt Seiri'r Gof' sy'n datblygu medrau ymarferol trin coed y disgyblion

yn llwyddiannus. Mae hyn yn galluogi'r disgyblion i ddefnyddio'r medrau hyn yn greadigol, er enghraifft wrth greu addurniadau Nadolig fel rhan o brosiect mentergarwch.

Mae pob aelod o staff yn defnyddio dulliau cyson ac amrywiol i asesu cynnydd a dealltwriaeth disgyblion o'r hyn maent yn ei wneud yn dda a'r camau nesaf yn eu dysgu. Mae athrawon ymhob dosbarth yn rhannu meini prawf llwyddiant ar ddechrau'r gweithgareddau dysgu sy'n sicrhau bod disgyblion yn ymwybodol o beth sydd angen iddynt ei wneud i lwyddo. Ar draws yr ysgol, mae athrawon yn cynnig adborth llafar pwrpasol i ddisgyblion ac yn eu hannog i ddyfalbarhau a myfyrio ymhellach ar sut i wella'u gwaith. Maent yn ymyrryd yn sensitif i gynorthwyo disgyblion ar adegau priodol yn ystod y sesiynau dysgu, er enghraifft wrth eu hannog i wirio eu cynnydd yn erbyn meini prawf llwyddiant. Darperir cyfleoedd cyson i ddisgyblion werthuso a myfyrio ar eu dysgu eu hunain a'i gilydd yn effeithiol.

### Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae staff yn creu cymuned ddiogel, hapus a chroesawgar iawn yn yr ysgol. Mae'r pwyslais cryf ar barchu eraill a dathlu eu cynefin yn cyfrannu'n werthfawr at ddatblygu disgyblion sy'n gwrtais, yn ymddwyn yn ardderchog ac yn falch o'u hysgol a'i chymuned. Mae staff yn cynllunio cefnogaeth yn ofalgar er mwyn diwallu anghenion emosiynol, personol a chymdeithasol y disgyblion. O ganlyniad, mae bron bob disgybl yn dangos empathi a pharch at eu cyfoedion a'r staff ac yn dangos gofal tyner at ei gilydd. Nodwedd gref o'r ddarpariaeth yw'r ystyriaeth a roddir i les disgyblion trwy gynnig cyfleoedd helaeth iddynt drafod eu hemosiynau mewn amryw ffyrdd. O ganlyniad, mae'r staff yn adnabod eu plant yn dda iawn.

Mae trafodaethau staff ynghyd â trefniadau trylwyr i olrhain cynnydd disgyblion yn cyfrannu'n llwyddiannus at adnabod anghenion pob disgybl. Mae hyn o fudd i staff adnabod a gweithredu'n gynnar wrth ymateb i anghenion unigolion a grwpiau o ddysgwyr. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd ag ADY yn drefnus ac effeithiol. Mae staff yn darparu ystod o raglenni cefnogi ac ymyrraeth gwerthfawr sydd wedi eu teilwra'n ofalus i ymateb i'w hanghenion a'u targedau personol. Gwna'r ysgol ddefnydd da o asiantaethau allanol fel y therapydd lleferedd a'r tîm iaith a chyfathrebu. Mae'r cymorthyddion dosbarth yn gweithio'n wybodus a medrus wrth gefnogi disgyblion i wneud cynnydd yn eu medrau. Mae staff yn cynnwys disgyblion, rhieni a sylwadau asiantaethau allanol i gynllunio'r camau nesaf yn eu dysgu yn effeithiol.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion o gefndiroedd gwahanol ddylanwadu'n fwriadus ar benderfyniadau strategol yn ogystal â chynnwys eu themâu. Mae effaith gwaith y cynghorau a phwyllgorau i'w gweld yn amlwg o amgylch yr ysgol ac wedi gwella lles disgyblion a chodi eu safonau darllen drwy brynu llyfrau newydd, er enghraifft. Yn ogystal, mae'r cyngor ysgol wedi sefydlu'r cwt gwaith coed i atgyfnerthu medrau ymarferol y disgyblion i'w paratoi ar gyfer byd gwaith yn y dyfodol.

Mae staff yn hyrwyddo diwylliant Cymru a threftadaeth Gymreig yn hynod lwyddiannus. Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd ysgogol i ddathlu hanes a thraddodiadau Cymru trwy ddigwyddiadau diddorol ac wrth ddefnyddio'r gymuned fel adnodd addysgol gwerthfawr. Er enghraifft, maent yn gwahodd cynrychiolwyr o fyd

busnes ac aelodau o'r gymuned i godi ymwybyddiaeth disgyblion o economi'r gymdeithas wledig mae'r ysgol yn rhan ohoni a dangos llwybr gyrfa iddynt ar sut i lwyddo'n lleol. Mae hyn yn ei dro yn hybu disgyblion i ddod yn aelodau llawn o'u cymunedau ac i ddangos balchder at yr ardal leol.

Mae staff yn meithrin datblygiad moesol a chymdeithasol disgyblion yn bwrpasol. Mae'r cyfnodau cydaddoli yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ystyried safbwyntiau eraill. Darperir cyfleoedd cyson i ddisgyblion fyfyrio ar sut y gellir helpu eraill, er enghraifft wrth gefnogi elusennau lleol a chenedlaethol. Mae athrawon yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddysgu am gredoau a chrefyddau eraill trwy ddysgu am eu traddodiadau a'u prif ddathliadau, fel gwyliau Hanuka, Diwali a Eid-ul-Adha.

Mae'r ysgol yn cynnig ystod o gyfleoedd buddiol sy'n hyrwyddo lles emosiynol a chorfforol disgyblion yn llwyddiannus, er enghraifft mewn gwersi nofio, clybiau chwaraeon a sesiynau ymarfer corff. Mae athrawon yn trefnu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu medrau creadigol, er enghraifft wrth gydweithio ag artistiaid lleol. Mae staff yn darparu ystod gyfoethog ac amrywiol o deithiau ac ymweliadau i gefnogi'r cwricwlwm. Darperir cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion berfformio a datblygu'u dychymyg trwy'r celfyddydau mynegiannol, creadigol a chorfforol, er enghraifft wrth gystadlu mewn eisteddfodau lleol a chenedlaethol a chymryd rhan mewn diwrnodau chwaraeon clwstwr. Mae hyn yn datblygu hunanhyder a medrau cydweithio disgyblion yn effeithiol.

Mae diwylliant diogelu'r ysgol yn gadarn, ac mae staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau am ddiogelwch a lles disgyblion. Mae gan yr ysgol strategaethau cadarn i hyrwyddo presenoldeb rheolaidd disgyblion, sy'n cynnwys monitro dyddiol, cyfathrebu rheolaidd â rhieni a gwaith dilynol gan yr awdurdod lleol. O ganlyniad, mae cyfraddau presenoldeb yn gwella'n raddol.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth effeithiol ac ystyriol sy'n sicrhau bod gan yr ysgol gyfeiriad strategol clir a diwylliant sy'n hyrwyddo gwelliant parhaus, yn ogystal ag amgylchedd dysgu croesawgar a hapus. Mae ganddi weledigaeth gadarn sy'n cael ei hadlewyrchu'n glir trwy arwyddair yr ysgol: 'Seiliau cadarn sy'n codi pontydd'. Mae'n rhannu'r weledigaeth hon yn effeithiol gyda holl randdeiliaid yr ysgol. Mae staff, rhieni a'r llywodraethwyr yn cydweithio'n effeithiol â'i gilydd i wireddu'r weledigaeth ac mae ei heffaith i'w gweld yn lles a datblygiad y disgyblion.

Mae arweinwyr yn hyrwyddo diwylliant o ddiogelu yn effeithiol ac, o ganlyniad, mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn mwynhau eu hamser yn yr ysgol. Rhinwedd nodedig o'r ddarpariaeth yw'r modd mae staff yn meithrin a chynnal ymdeimlad o berthyn i'r ysgol, y gymuned a Chymru. Mae staff yn hybu'r Gymraeg a Cymreictod yn hynod lwyddiannus sy'n cyfrannu'n gadarn at ddatblygu balchder disgyblion at eu hunaniaeth a'u treftadaeth. Rhoddir pwyslais clir ar ddarparu ystod gyfoethog o brofiadau dysgu sydd wedi eu seilio ar nodweddion yr ardal leol fel cyfrwng hynod effeithiol i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth y disgyblion o'u 'milltir sgwâr, a'i chyfoeth o hanes a thraddodiadau.

Mae’r pennaeth yn gosod disgwyliadau uchel iddi hi ei hun, i staff, a disgyblion. Caiff gefnogaeth dda gan y dirprwy bennaeth. Maent yn meithrin gwerthoedd ac ymddygiad proffesiynol sy’n cyfrannu’n dda at gydweithio effeithiol, ac yn arwain at ethos tîm cryf ymhlith staff. Mae arweinwyr yn sicrhau cyfleoedd gwerthfawr i bob aelod o staff ddatblygu cyfrifoldebau arwain.

Mae arweinwyr yn adnabod yr ysgol yn dda. Mae gweithdrefnau hunanwerthuso cadarn yn ganolog i fywyd a gwaith yr ysgol. Mae trefniadau i fonitro a gwerthuso holl agweddau’r ddarpariaeth yn cael eu hymgorffori’n dda ac yn galluogi arweinwyr i nodi’n glir agweddau sydd angen eu gwella fwyaf. Mae’r pennaeth yn sicrhau bod gan yr holl staff rôl weithredol yn y broses sy’n eu cefnogi i adnabod cryfderau’r ysgol a'i meysydd i’w gwella yn dda. Er enghraifft, mae’r staff wedi adnabod yr angen i wella presenoldeb disgyblion ac i sicrhau mwy o gyfleoedd i’r disgyblion hynaf gymhwyso eu medrau ysgrifennu Saesneg yn fwy rheolaidd ar draws y cwricwlwm. Mae cynllunio meddylgar a thra ystyriol yn sicrhau bod yr ysgol yn mynd i’r afael â’r blaenoriaethau hyn yn llwyddiannus. Ceir ymwybyddiaeth ac ymrwymiad cryf ymhlith arweinwyr a staff i fynd i’r afael â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn llwyddiannus, er enghraifft wrth gyflwyno egwyddorion Cwricwlwm i Gymru a gweithredu elfennau allweddol y Ddeddf ADY yn effeithiol.

Mae gan staff berthynas ragweithiol â’r rhieni a’r gymuned ehangach sy’n eu hannog i fod yn rhan allweddol o fywyd yr ysgol. Mae’r staff yn cyfathrebu’n effeithiol ac amserol â nhw sy’n sicrhau dealltwriaeth rhieni o holl weithgareddau’r ysgol a beth allant ei wneud i gefnogi eu plant. Mae’r rhieni’n falch iawn bod eu plant yn mynychu ysgol mor gefnogol sy’n gwbl ganolog i gymuned wledig Ysgol Pont y Gof.

Mae arweinwyr yn creu diwylliant ac ethos cadarnhaol i hyrwyddo a chefnogi dysgu proffesiynol pob aelod o staff. Mae hyn yn cysylltu’n glir â blaenoriaethau gwella’r ysgol ac anghenion proffesiynol unigol y staff. Mae’r pennaeth yn cadw adroddiad manwl am y gweithgareddau dysgu proffesiynol sy’n cael eu mynychu gan staff. Caiff effaith y gweithgareddau hyn ei mesur yn fedrus i ddeall yr effaith ar brofiadau a chynnydd disgyblion. Mae’r cyfleoedd hyn yn annog cydweithio effeithiol ag ysgolion eraill, er enghraifft i wella medrau darllen Saesneg a medrau digidol disgyblion.

Mae llywodraethwyr yn deall eu rolau’n dda ac yn cyflawni eu cyfrifoldebau yn gydwybodol ac yn llwyddiannus. Maent yn cyfrannu’n bwrpasol at osod blaenoriaethau strategol yr ysgol, ac yn meddu ar ddealltwriaeth glir o’r ddarpariaeth, a’i heffaith ar gynnydd ym medrau’r disgyblion. Maent yn darparu cydbwysedd priodol o gymorth a her ac yn dwyn yr ysgol i gyfrif yn eu rôl. Mae’r corff llywodraethol yn sicrhau bod y bwydydd a’r diodydd a ddarperir gan yr ysgol yn cydymffurfio â deddfwriaeth ac mae ganddo drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae’r ysgol yn rheoli ei chyllid yn effeithlon ac yn ei defnyddio’n synhwyrol yn unol â blaenoriaethau gwella’r ysgol. Maent yn gwneud defnydd pwrpasol o gyllid grant ychwanegol, gan gynnwys y grant datblygu disgyblion a ddefnyddir yn ddoeth i ddarparu cymorth i helpu ac annog lles a dysgu disgyblion. Mae staff yn defnyddio adnoddau’r ysgol yn effeithiol i ddarparu amgylchedd dysgu difyr sy’n cefnogi’r addysgu a dysgu yn fwriadus. Maent yn gwneud defnydd rheolaidd o dir helaeth yr ysgol, sy’n cynnwys ardal goedwig ddatblygedig, i ddarparu cyfleoedd ysgogol a chreadigol ar gyfer dysgu yn yr awyr agored.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.  Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  23/05/2024